Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol Gynradd |
| **SWYDD:** | Swyddog Cymorth Arbennig |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 7 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

O dan gyfarwyddyd (nid rheolwyr uniongyrchol o reidrwydd) staff addysgu / perthnasol darparu cymorth wrth fynd i'r afael ag anghenion disgyblion y mae angen help penodol arnynt i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio a darparu cymorth penodol i ddisgyblion mewn dosbarthiadau canolfan adnoddau dysgu arbenigol drwy ddefnyddio strategaethau ac adnoddau priodol.
- Gweithredu gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt gan addasu gweithgareddau yn ôl anghenion disgyblion.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu rhaglenni Addysg/Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol a'u rhoi ar waith.
- Gyda hyfforddiant rhoi sylw i anghenion personol disgyblion a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig, gan gynnwys cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth mewn argyfwng, cymorth meddygol ac anghenion lles a gweinyddu meddyginiaeth lle y bo angen.
- Herio a chymell disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-barch.
- Gwneud argymhellion i athrawon neu staff eraill ar ddulliau o wella cynnwys disgyblion.
- Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso rhaglenni dysgu i unigolion neu grwpiau o fewn cylch gwaith y rôl.
- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu strwythuredig y cytunwyd arnynt, addasu gweithgareddau yn unol ag ymatebion disgyblion.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

Deall y cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn rôl rheolwr a chyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch personol yn HASAWA 1974.

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth Cyfle Cyfartal ac Arfer Gorau.

**DYDDIAD ADOLYGU/HAWL I AMRYWIO**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

**MANYLEB Y PERSON**
**Swyddog Cymorth Arbennig Canolfan Adnoddau Dysgu Arsylwi ac Asesu**

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • NVQ 3 i Gynorthwywyr Addysgu neu gymwysterau cyfwerth neu brofiad y gellir ei ddangos.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Hyfforddiant Cymorth Cyntaf neu barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. | Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant o oedran perthnasol neu ofalu amdanynt mewn amgylchedd anghenion arbennig.<br>• Profiad o weithio gyda phlant ar draws yr ystod oedran cynradd<br>• Profiad o weithio ochr yn ochr ag oedolion eraill fel rhan o dîm staff | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a geirda. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu datblygu cynlluniau dysgu clir a realistig a monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau.<br>• Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu.<br>• Rheoli amser yn effeithiol ac yn gallu blaenoriaethu gwaith pan fo angen.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | Cyfweliad, ffurflen gais a geirda. |